


Gweithgaredd siapiau

Beth am edrych ar wynebau siapiau pan fyddwch gartref neu allan?

- ♦ Gofynnwch i'ch plentyn – beth yw siâp y plât, y drych, mat y bath, lliain sychu llestri, y ffenestr, y drws, y golau traffig coch ac yn y blaen.
- ♦ Dewiswch siâp yr wythnos, e.e. sgwâr.
Sawl un o'r siapiau hyn gall eich plentyn eu 'nabod yn ystod yr wythnos gartref a phan fyddwch allan?




Gêm ddis

Bydd angen dis 1-6, papur a phensil.

- ♦ Cymerwch eich tro.
- ♦ Dewiswch rif rhwng 1 a 10 a'i ysgrifennu.
- ♦ Taflwch y dis a dwedwch beth yw rhif y dis.
- ♦ Cyfrifwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rhif dewisol a rhif y dis, e.e. os oeddech wedi ysgrifennu 2 a'r dis yn dangos 5, y gwahaniaeth yw 3.

Gallech hefyd dynnu llun llinell rif i helpu eich plentyn weld y gwahaniaeth rhwng y ddau rif.



Beth yw dy oed?

Dechreuwch gydag oedran eich plentyn. Gofynnwch:

Beth fydd dy oed pan fyddi di 1 flwyddyn yn hŷn?

Beth oedd dy oed y llynedd?


Beth fydd dy oed 10 mlynedd o heddiw?

ac yn y blaen.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 1

YGG Castell-nedd

Targedau



Mathemateg

Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn1 ¹

Erbyn diwedd Blwyddyn 1, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu...

- Cyfrif o leiaf 20 o bethau cyffredin.
- Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un, gan ddechrau o rif bach.
- Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul deg (sero, deg, dau ddeg, tri deg...)
- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at o leiaf 20.
- Rhoi'r rhifau 0 i 20 yn eu trefn.
- Defnyddio'r geiriau *cyntaf, ail, trydydd* ...
- Rhoi rhif o 10 i 20, dweud y rhif sydd 1 yn fwy, 1 yn llai, 10 yn fwy, 10 yn llai.
- Defnyddio'r geiriau *adio, swm, cyfanswm, tynnu, gwahaniaeth rhwng* ...mewn sefyllfaoedd ymarferol.
- Gwybod ar gof yr holl barau rhif sy'n gwneud 10, e.e. $3 + 7$, $8 + 2$.
- Adio a thynnu dau rif o dan 10.
- Cymharu dwy eitem neu gynhwysydd, a dweud p'un yw'r hiraf, y byrraf, neu'r trymaf neu'r ysgafnaf, neu p'un sy'n dal y mwyaf.
- Enwi a disgrifio siapiau fflat a solid syml, e.e. *Mae tri chornel ganddo*.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 1.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 20 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 12. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Rhifau cyfrin

0123456789

- ◆ Ysgrifennwch y rhifau 0 i 20 ar bapur.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn ddewis rhif ar y papur yn gyfrinachol. Yna, gofynnwch gwestiynau iddi/ iddo i geisio darganfod beth yw'r rhif cyfrin e.e.

Ydy e'n llai na 10?

Ydy e rhwng 10 a 20?

Oes 5 ynddo?

Dim ond 'ydy' neu 'nac ydy' gall y plentyn ateb.

- ◆ Pan fyddwch wedi dyfalu beth yw'r rhif, eich tro chi fydd dewis rhif. Bydd eich plentyn yn gofyn y cwestiynau.

Er mwyn cael gêm haws, defnyddiwch rifau hyd at 10. Am gêm fwy anodd, defnyddiwch 5 cwestiwn yn unig, neu defnyddiwch rifau sy'n fwy.